

Polisi Anabledd Athrofa Padarn Sant



ATHROFA PADARN SANT
ST PADARN'S INSTITUTE

Tabl Rheoli Dogfen

Teitl y ddogfen:	Polisi Anabledd Athrofa Padarn Sant		
Awdur(on) (enw, teitl swydd a sefydliad):	Gareth Longden, Cofrestrydd Kathryn Delderfield		
Rhif y fersiwn:	Fersiwn 3		
Statws y ddogfen:	Cymeradwywyd		
Dyddiad cymeradwyo:	18 Mehefin 2022		
Cymeradwywyd gan:	Bwrdd Gweithredol Padarn Sant		
Dyddiad rhoi mewn grym:	Mehefin 2022		
Dyddiad yr adolygiad nesaf:	Mehefin 2025		
Y fersiwn a ddisodlir:	Fersiwn 2		
Dogfennau cysylltiedig:			
Hanes y Ddogfen:			
Fersiwn	Dyddiad	Awdur	Nodiadau ar yr adolygiadau
1	22 Awst 2019	Gareth Longden, Cofrestrydd	<ul style="list-style-type: none"> • Drafft cyntaf • Wedi ei ddiweddarau yn dilyn adolygiad o'r Ddarpariaeth Cymorth Dysgu
2	20 Medi 2021	Kathryn Delderfield	
3	10 Mai 2022	Kathryn Delderfield	<ul style="list-style-type: none"> • Diwygio'r adran am ganiatâd sydd ei hangen ar gyfer datgeliad i Oruchwylwyr Lleoliadau yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Corff Cynrychiolwyr a Phennaeth Adran Gyfreithiol. • Diwygio iaith rhywedd benodol

Polisi Anabledd Athrofa Padarn Sant

1. Cynnwys y Polisi

1. Cynnwys y Polisi
2. Cyflwyniad
3. Diffiniad o Anabledd
4. Egwyddorion
5. Datganiad a Chyfrinachedd
6. Addasiadau Rhesymol
7. Lwfans Myfyrwyr Anabl
8. Cynghorydd Cymorth Dysgu
9. Cymeradwyo ac Adolygu'r Polisi

2. Cyflwyniad

Mae Padarn Sant wedi ymrwmo i sicrhau nad yw anabledd yn rhwystr i gyfranogiad llawn mewn dysgu ac addysgu, cyfleusterau a gwasanaethau ar gyfer dysgwyr presennol a darpar ddysgwyr.

Mae Padarn Sant yn cefnogi dull sy'n gofyn am roi ystyriaeth ragweithiol i fynediad i ddysgu, addysgu, gwasanaethau a chyfleusterau i sicrhau bod addasiadau'n cael eu gwneud cyn i unigolion ag anableddau geisio astudio neu ddefnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau.

Mae'r Athrofa wedi ymrwmo i fynd i'r afael â rhwystrau i gynhwysiant (strwythurol, diwylliannol, sefydliadol neu o ran agwedd) ac mae'n arddel y gred nad yw darpariaeth hygyrch a phriodol yn ddarpariaeth "ychwanegol" ond yn elfen graidd o'n cenhadaeth gyffredinol a'n gwaith.

Mae'r polisi yn gymwys i bob dysgwr anabl gwaeth beth fo'i genedligrwydd, statws ffioedd, rhaglen astudio neu breswylfa.

3. Diffiniad o Anabledd

Mae gan berson anabledd os oes ganddyn nhw nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol neu hirdymor ar eu gallu i gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd arferol (Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae hirdymor yn golygu ei fod wedi para o leiaf 12 mis, yn debygol o bara o leiaf 12 mis, neu mae'n debygol o bara am weddill oes y person. Mae anabledd yn cwmpasu ystod eang o namau corfforol a meddyliol, gan gynnwys anawsterau corfforol a symudedd, namau ar y clyw, namau ar y golwg, gwahaniaethau dysgu penodol gan gynnwys dyslecsia, cyflyrau meddygol a phroblemau iechyd meddwl.

4. Egwyddorion

- Bydd pob cais am fynediad i raglen yn cael ei hystyried ar ei deilyngdod ei hun ac ar sail unigol, gan ddefnyddio'r un meini prawf mynediad sy'n gymwys i bob dysgwr. Mae'r asesiad hwn, yn broses lle bydd ystyriaeth o addasrwydd academiaidd yn cael ei gwneud ar wahân i unrhyw drafodaeth wedi ei seilio ar anghenion eraill yr ymgeisydd, gyda'r trafodaethau hynny yn digwydd fel gweithgaredd cyfochrog.
- Bydd Padarn Sant yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi ym mhob polisi, gweithdrefn, swyddogaeth a gweithgaredd i'r ffordd y galluogir cyfranogiad llawn bob myfyriwr anabl ym mhob agwedd ar fywyd academiaidd a chymdeithasol yr athrofa.
- Bydd manylion deunydd cyhoeddusrwydd, manylion rhaglenni a gwybodaeth gyffredinol Padarn Sant yn hygyrch i bobl ag anabledau.
- Bydd Padarn Sant â phrosesau er mwyn asesu anghenion dysgwyr anabl i sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud, gan alluogi myfyrwyr i wireddu eu llawn botensial.
- Bydd Padarn Sant yn sicrhau bod gofynion myfyrwyr anabl yn cael eu hystyried wrth ddilysu ac adolygu rhaglen a bod diwygiadau priodol yn cael eu gwneud. Bydd manylebau rhaglenni sy'n codi rhwystrau i fynediad gan bobl anabl yn cael eu hailystyried a bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud i sicrhau cyn lleied o rwystrau â phosibl.
- Mae Athrofa Padarn Sant ym mabwysiadau proses o **Ddatgan- Tystiolaeth-Asesu proses Cymorth**.
 - Mae'n gyfrifoldeb ar **ddysgwyr** u ddatgan unrhyw anabledau a darparu tystiolaeth ofynnol o anabledd. Nid oes modd gwneud unrhyw addasiadau

rhesymol heblaw bod y dysgwr yn gwneud datganiad o anabledd ac yn darparu tystiolaeth i gefnogi'r cais.

- Bydd penderfyniadau ar addasiadau rhesymol sy'n ffurfio'r cynllun cymorth dysgwr yn cael eu gwneud ar sail proses asesu priodol, dan gyfarwyddwyd Athrofa Padarn Sant. Os yw dysgwr yn dewis peidio â mynd drwy'r broses asesu ni ellir gwneud unrhyw addasiadau rhesymol.
- Mae **dysgwyr** yn gyfrifol am ofyn am adolygu unrhyw addasiadau rhesymol sydd ar waith, os nad yw'r cyfryw addasiadau yn bodloni eu hawliadau'n effeithiol.

5. Datganiad a Chyfrinachedd

Penderfyniad y dysgwr unigol yn llwyr fydd os ydynt am ddatgelu anabledd ac amseriad y datgelu hwnnw. Fodd bynnag, os rhoddwyd cyfleoedd i ddatgelu anabledd a bod unigolyn yn penderfynu peidio â gwneud hynny, yna ni fydd Padarn Sant yn gallu cynnig cymorth neu addasiadau unigol.

Anogir Dysgwyr i ddatgan unrhyw anabledd, gwahaniaeth dysgu penodol neu gyflwr meddygol yn gynnar yn y broses er mwyn galluogi Athrofa Padarn Sant i ystyried o flaen llaw, trefniadau mynediad cyffredinol, unrhyw gymorth ychwanegol neu drefniadau penodol sydd angen eu gwneud. Gellir gwneud datgeliad wrth ymgeisio drwy gwblhau'r adran berthnasol ar y ffurflen gais, neu wrth e-bostio learningsupport@stpadarns.ac.uk.

Ni ellir dal Padarn Sant yn atebol am beidio â rhoi addasiadau rhesymol ar waith yn ôl-weithredol (h.y. cyn datgelu anabledd). Bydd Padarn Sant yn rheoli'r broses o rannu gwybodaeth ac yn trin yr holl ddata personol yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 (ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol a allai ddisodli hon); bydd mynediad at wybodaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael ei ddarparu ar sail yr angen i wybod yn unig, er mwyn gallu rhoi addasiadau rhesymol ar waith.

Pan fo myfyriwr ar leoliad fel rhan o'i hyfforddiant, efallai y rhennir gwybodaeth berthnasol, gyda chydysniad y dysgwr, er mwyn sicrhau y bydd addasiadau rhesymol yn cael eu darparu i sicrhau nad yw'r dysgwr yn cael ei roi dan anfantais.

6. Addasiadau Rhesymol

Mae Padarn Sant yn ceisio cynyddu cynhwysiant y dysgu a'r addysgu i sicrhau'r profiad dysgu gorau i bawb. Fodd bynnag, mae'n cydnabod nad yw hyn yn lleihau'r

angen am addasiadau rhesymol. Os yw dysgwr anabl yn cael ei roi dan anfantais sylweddol, mae'n rhaid i Badarn Sant wneud addasiad rhesymol, a ddiffinnir fel penderfyniad a wneir gan yr Athrofa i ganiatáu trefniadau eithriadol ar gyfer myfyrwyr. Gallai addasiadau gynnwys trefniadau arholi penodol, darparu cymorth ychwanegol ar gyfer dysgu, addasiadau i arferion asesu, a threfniadau llety. Bydd addasiadau'n cael eu gwneud o fewn paramedrau'r ffactorau canlynol:

- Natur amgylchiadau ac anghenion y dysgwr ar ôl darparu'r dystiolaeth a chyflawni'r broses asesu.
- Natur y rhaglen astudio academaidd.
- Effeithlonrwydd tebygol yr addasiadau o safbwynt cael gwared ar yr anfantais.
- Pa mor ymarferol yw'r addasiad, gan ystyried:
 - i. Ymarferoldeb y camau
 - ii. Materion iechyd a diogelwch
 - iii. Adnoddau Athrofa Padarn Sant
 - iv. Disgwyliadau rhesymol eraill a ffactorau allanol (er enghraifft, ffactorau sy'n ymwneud â lleoliadau)
 - v. Y costau, gan gynnwys y ffynonellau cyllid allanol megis Lwfans Myfyrwyr Anabl I gynorthwyo'r addasiadau
 - vi. Lles perthnasol eraill, gan gynnwys dysgwyr eraill, lle byddai addasiadau yn eu rhoi'r eraill hynny o dan anfantais
 - vii. Pa mor helaeth fydd gwasanaethau a chymhorthion a ddarperir i'r unigolion ac anabled
 - viii. Cynsail gyfreithiol
 - ix. Y posibilrwydd o ddefnyddio mesurau cynhwysol, sef ein dull dewisol o sicrhau hygyrchedd, yn hytrach nag addasiad rhesymol.

I'r rhai hynny sy'n ymgeiswyr ar gyfer y weinidogaeth, bydd Cynghorydd Cymorth Dysgu yn gweithio gyda'r Tiwtor Dysgu Cyd-destunol a'r Goruchwylydd y Lleoliad i roi addasiadau rhesymol mewn lle.

Bydd unrhyw gymorth gan Athrofa Padarn Sant yn ymwneud a'i swyddogaeth fel darparwr addysg. Ni fydd Athrofa Padarn Sant yn darparu cymorth a ddarperir gan sefydliadau statudol megis Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Awdurdod Iechyd yn arferol.

Bydd angen tystiolaeth ar Athrofa Padarn Sant o'r anabledd ac mi fydd fel arfer gofyn i'r dysgwr fynd drwy broses o asesiad i asesu beth, os unrhyw, addasiadau rhesymol y gellir gwneud.

Bydd manylion unrhyw addasiadau y cytunwyd iddynt, yn cael eu cynnwys yn eu Cynllun Cymorth a rhennir gyda'r staff priodol. Ni fydd Tiwtoriaid a staff eraill yn

medru gwneud addasiadau ychwanegol heb drafodaeth â'r Cynghorydd Cymorth Dysgu.

7. Lwfans Myfyrwyr Anabl

Grant gan y Llywodraeth yw Lwfans Myfyrwyr Anabl sydd ar gael i ddysgwyr anabl cymwys ar rai cyrsiau addysg uwch yn y DU, i helpu gyda chostau cyrsiau ychwanegol a allai godi wrth fynychu eu cwrs, o ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd. Gall y lwfans helpu i dalu am gynorthwydd personol anfeddygol, eitemau o gyfarpar arbenigol, meddalwedd cynorthwyol, teithio a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'r cwrs. Nid yw'r lwfans yn destun prawf modd ac nid oes angen ei ad-dalu. Nid yw Lwfans Myfyrwyr Anabl ar gael i bob myfyriwr, ond yn amodol ar feini prawf cymhwyster a nodir ar wefan Gov.uk yn: <https://www.gov.uk/disabled-students-allowance-dsa/overview>.

Efallai y bydd ymgeisydd anabl yn cael cynnig lle ym Mhadarn Sant, ond nid yw'r cynnig hwnnw yn rhoi sicrwydd ei fod yn gymwys i dderbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl.

Mae Lwfans Myfyrwyr Anabl wedi ei seilio ar asesiad dysgu a drefnir drwy'r corff dyfarnu'r DSA. Argymhellion yr asesiad hwn fydd sail i ddatblygu cynllun cymorth i ddysgwyr. Bydd dysgwyr sy'n datgan anabledd ac yn astudio ar raglen achrededig yn cael eu hannog i wneud cais am Lwfans Anabledd i Fyfywyr er mwyn i addasiadau rhesymol cael eu gwneud. Ni all Athrofa Padarn Sant gwneud addasiadau rhesymol a ddarperir fel arfer drwy DSA.

8. Cynghorydd Cymorth Dysgu

Mae'r Cynghorydd Cymorth Dysgu yn aelod o staff Padarn Sant gyda chyfrifoldeb i gefnogi myfyrwyr ag anableddau i wireddu eu potensial academiaidd. Bydd y Cynghorydd Cymorth Dysgu yn ceisio sicrhau bod pob dysgwr yn derbyn cyfle cyfartal yn ystod ei astudiaethau ym Mhadarn Sant. Lle'n bosibl, gall arferion cynhwysol olygu nad oes angen cymorth unigol, ond lle mae rhwystrau yn deillio o anabledd sy'n parhau i fodoli, bydd y dysgwr yn cael cynnig addasiadau rhesymol.

Prif ddull Padarn Sant o sicrhau hygyrchedd yw drwy ddatblygu a sefydlu arferion dysgu ac addysgu cynhwysol, ond cydnabyddir bod angen rhai addasiadau unigol o hyd.

9. Cymeradwyo ac Adolygu'r Polisi

- Bydd y polisi hwn ynghyd â pholisiau, gweithdrefnau a chanllawiau eraill sy'n gysylltiedig â dysgwyr sy'n astudio ym Mhadarn Sant ar gael i bawb ac yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd a'u gwerthuso'n achlysurol.
- Y Cynghorydd Cymorth Dysgu a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol.
- Gellir canfod y ddogfen hon yn adran dysgwyr VLE ar wefan yr Athrofa: www.stpadarns.ac.uk.
- Bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i ymateb i unrhyw gais i ddarparu'r polisi hwn mewn fformat gwahanol.
- Bydd y polisi hwn yn cael ei gynnwys yn rhaglen sefydlu'r staff.